*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* **Eitem 8 ar yr Agenda**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **30 Medi 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.gov.wales) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cwrdd â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.

6 Ar 1 Gorffennaf aeth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i gyfarfod o'r Bartneriaeth Gymdeithasol a gynhaliwyd o bell.

7 Ar 12 Gorffennaf aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i Seremoni Dathlu Cyflawniad ar gyfer recriwtiaid newydd a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

8. Ar 23 Gorffennaf aeth y Cadeirydd i gyfarfod o'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gynhaliwyd o bell.

9. Ar 2 Medi, aeth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i Wasanaeth Coffa ar gyfer diffoddwyr tân a fu farw a gafodd ei gynnal yn y Goedardd Goffa Genedlaethol yn Swydd Stafford.

10. Ar 5 Medi aeth y Dirprwy Gadeirydd i sesiwn friffio ar-lein gan Crest Advisory Consultants ynghylch yr adolygiad annibynnol o ddiwylliant GTAGC.

11. Ar 19 Medi aeth y Dirprwy Gadeirydd i Seremoni Dathlu Cyflawniad yng Ngorsaf Dân y Waun ar gyfer y bobl ifanc hynny a oedd wedi cwblhau Cwrs y Ffenics yn llwyddiannus.

12. Ar 20 Medi aeth y Cadeirydd i gyfarfod hybrid o'r Comisiwn Tân.

13. Ar 26 Medi aeth y Cadeirydd i weminar diogelwch adeiladau a gynhaliwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â newidiadau polisi a deddfwriaethol arfaethedig.

14. Bu'r Dirprwy Gadeirydd hefyd yn angladd diffoddwr tân oedd wedi ymddeol, sef Ben Dudley, ac angladd y Swyddog Rhanbarthol Cynorthwyol (ADO) W.G.Jones, ill dau yn Amlosgfa Llaneurgain.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |